Lab Awyr
Creu persbectif newydd

Mae Lab Awyr yn brosiect digidol newydd sy'n canolbwyntio ar botensial sydd gan Gerbydau Di-griw Awyrol o archwilio tirwedd y Mynydd Du o'r awyr, drwy raglen o ddigwyddiadau a gweithdai hyfforddi. Bydd artistiaid, technolegwyr creadigol a sefydliadau amgylcheddol yn cydweithio i gynyddu sgiliau a gwybodaeth, arbrofi a rhwydweithio yn enw cyd ddysgu a chydweithredu â chymheiriaid.

Bydd Lab Awyr yn digwydd yng Nghrucywel yn ystod Tachwedd 2017.

Am y rhaglen lawn, gweler: www.artsalivewales.org.uk

Cafodd Lab Awyr ei ddyfeisio gan y Cynhyrchydd Cysylltiol, Dr Emma Posey, sylfaenydd a Chyfarwyddwr Creadigol www.bloc.org.uk

---

Cyfle i Artist sy'n Dod i'r Amlwg

Straeon Oddi Fry

Dydd Llun 6 a Dydd Sadwrn 11 Tachwedd, 10am-4pm
Stiwdio Arts Alive Wales Crucywel, Powys

Cwrs datblygu proffesiynol i artistiaid sy'n dod i'r amlwg gael hyfforddiant gwerthfawr oddi wrth ymarferwyr profiadol er mwyn creu prosiectau digidol i bobl ifanc.

AM DDIM: yn cynnwys cyfraniad at gostau teithio.

Rydym yn falch iawn o groesawu'r artist gwadd **Mariele Neudecker** i'r diwrnod cyntaf o hyfforddiant. Bydd artistiaid yn cael y cyfle i weithio â Mariele, ochr yn ochr ag Emma Posey, Cynhyrchydd Cysylltiol Lab Awyr a Rachel Dunlop, Rheolwr Cyfranogi i archwilio ar y cyd a datblygu syniadau gweithdai. Yn yr ail sesiwn bydd artistiaid yn cael eu cefnogi i hwyluso eu gweithdai gyda chyfranogwyr ifanc o brosiectau Arts Alive Wales gan gael adborth beirniadol.

'Ganwyd Mariele Neudecker yn yr Almaen (g1965) ac mae'n byw a gweithio ym Mryste. Mae hi'n adnabyddus yn rhyngwladol am ei chypyrddau gwydr yn cynnwys tirluniau o fforestydd, llynnoedd neu fynyddoedd ynghyd ag effeithiau tywydd ffug. Mae'r rhain yn aml yn dwyn i gof luniau neu artistiaid eraill. Hefyd wrth ddefnyddio cerfluniau, ffilm a ffotograffiaeth, mae Neudecker yn creu gwefr rhwng cynrychioliadau hanesyddol o dirlun godidog a'n canfyddiad, dychymyg ac atgof o brofiad.' – Tate.

Mae Mariele yn Athro ym Mhrifysgol Bath Spa, Caerfaddon:. www.marieleneudecker.co.uk

Mannau Hyfforddi

Mae mannau hyfforddi ar gael ar gyfer hyd at 6 o artistiaid sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, sydd ar gyfnod allweddol yn eu gyrfa gynnar. Anelir at artistiaid sy'n dod i'r amlwg, rhaid i geisiadau fod wedi cael eu cyflwyno gan artistiaid sydd wedi cyflawni lefel broffesiynol o ymarfer ond a all arddangos fanteision mynychu hyfforddiant pellach. Caiff graddedigion diweddar eu hannog i ymgeisio. Nid ydym yn chwilio am 'artistiaid digidol' ar y cyfryw ond mae diddordeb gennym hefyd yn yr artistiaid hynny sy'n awyddus i archwilio potensial y digidol oddi fewn i'w hymarferiad. **Dyddiad cau ymgeisio: 5pm dydd Llun 9 Hydref**

Y Broses Ddethol

Caiff dethol ei ddilyn yn seiliedig ar:

- Diddordeb yr artist mewn Straeon Oddi Fry a pham eu bod am fod yn bresennol
- Cryfder gwaith yr artist ac unrhyw brofiad perthnasol o weithio'n greadigol â phobl ifanc
- Sut y bydd mynychu yn effeithio ar ymarferiad creadigol yr artist a datblygiad proffesiynol
- Parodrwydd yr artist a'r gallu i gydweithio ag eraill

Bydd y panel dethol yn cynnwys:
Rebecca Spooner, Cyfarwyddwr Creadigol, Arts Alive Wales
Dr Emma Posey, Cynhyrchydd Cysylltiol ar gyfer Lab Awyr
Rachel Dunlop, Rheolwr Cyfranogi, Arts Alive Wales

Caiff artistiaid llwyddiannus eu dethol a'u hysbysu erbyn dydd Llun 16 hydref. Yn anffodus nid yw'n bosibl rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Y Broses Ymgeisio

Er mwyn ymgeisio cliciwch ar y ddolen ganlynol: https://goo.gl/forms/sjQJ54x0fWjxinxr2

a fydd yn eich arwain at ffurflen ymgeisio ar-lein yn gofyn am:

Datganiad yn amlinellu eich ymarfer celf gyfredol a phrofiad (dim mwy na 100 gair)

Datganiad yn cefnogi eich cais yn esbonio eich diddordeb mewn hyfforddiant a sut y teimlwch y bydd mynychu yn effeithio ar eich ymarferiad (dim mwy na 200 gair)

Hyd at 4 dolen we ag enghreifftiau o'ch gwaith diweddar a/neu CV

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Rebecca Spooner, Cyfarwyddwr Creadigol
rebecca@artsalivewales.org.uk 01873 811579

Gwybodaeth a Chyd-destun Pellach:

Arts Alive Wales

Mae Arts Alive Wales yn sefydliad celfyddydol yng Nghrucywel, De Powys, a sefydlwyd fel elusen addysgiadol ym 1992. Mae ein gwaith a'n gweledigaeth yn cael eu hysbrydoli gan ac yn ymateb i gyd-destun diwylliannol, cymdeithasol, hanesyddol ac amgylcheddol unigryw'r Mynydd Du. www.artsalivewales.org.uk

Cyfoethogi bywydau pobl yng nghymunedau gwledig ac ôl-ddiwydiannol Canolbarth a De-ddwyrain Cymru yw ein gweledigaeth drwy gyfranogiad actif ac ystyrlon a chelfyddydau a diwylliant cyfoes o ansawdd uchel.

Cafodd Arts Alive Wales (AAW) ei gynnwys fel sefydliad newydd ym mhortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru ers Ebrill 2016. Mae ein rhaglen Peak/Copa yn datblygu celf gyfoes yn y Mynydd Du er budd artistiaid, cymunedau ac ymwelwyr yr ardal www.peakart.org.uk

Y Mynydd Du

Mae'r Mynydd Du yn gasgliad o fryniau sydd ledled rhannau o Bowys a Sir Fynwy yn Ne-ddwyrain Cymru, ac yn estyn dros y ffin genedlaethol i Swydd Henfforddd. Dyma'r gadwyn o fryniau fwyaf dwyreiniol o'r pedair sy'n llunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac maen nhw o fewn awr o daith o Gaerdydd a Bryste. Yn fras, caiff y Mynydd Du ei ddiffinio fel y bryniau hynny sydd oddi fewn i driongl a ffurfiwyd gan brif drefi'r Fenni yn y de-ddwyrain, y Gelli yn y gogledd ac Aberhonddu yn y gorllewin. Mae treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog gan ardal y Mynydd Du ac mae'n parhau i ddenu artistiaid, awduron a cherddorion i fyw a gweithio yma. Mae'n gartref i wyliau rhyngwladol yn cynnwys Gŵyl y Gelli, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Fwyd y Fenni.

Caiff Air Lab ei gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru